# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**2/9/25**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Lis Puw, Euros Roberts, Beryl Griffiths, Rhodri Jones, Dewi Jones, Huw Roberts ac Alwyn Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3221** **Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Robert. Cydymdeimlwyd â'r Cyng Huw Roberts yn ei brofedigaeth o golli ei fam yng nghyfraith, ac fe gyfeiriwyd at yr holl ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol dros yr haf, yn benodol lwyddiant yr ardalwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, llwyddiant Sioe Llan a Gŵyl Llan. Cyfeiriwyd hefyd at lwyddiant ieuenctid yr ardal yn eu harholiadau.

**3222** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llinos Edwards (is gadeirydd).

**3223** **Datganiadau o fuddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Heledd Jones, Beryl Griffiths ac Euros Roberts yng nghais cynllunio Y Bryn.

**3224** **Cofnodion Cyfarfod Gorffennaf 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3225** **Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Derbyniwyd gwybodaeth gan Grŵp Cynefin am y cynllun Tai Teg sy'n nodi sut y mae cymhwyso ar gyfer y cynllun. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i gysylltu eto hefo Grŵp Cynefin i ofyn am fwy o wybodaeth am gynllun Tŷ Gwynedd, ac i ofyn sut y gall Grŵp Cynefin liniaru rhywfaint ar bryderon y cyngor a thrigolion lleol am y cynllun.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Adroddwyd fod cwyn wedi ei derbyn am leoliad y polyn fydd yn cynnal y defib, gan ei fod yn rhwystro mynediad i gerddwyr. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd symud y polyn cyn symud ymlaen i archebu'r offer defib, ac i wneud trefniadau i'w weirio.

iii. Cerrig Beddi Mynwent yr Eglwys: Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i symud rhai cerrig beddi yn y fynwent, a gofynnwyd i'r Clerc a'r Cyng Alwyn Jones i asesu'r gwaith o'u symud i leoliad arall yn y fynwent.

iv. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Derbyniwyd cynnig grant o £7,500 o Gronfa Gwynedd Ni i ddatblygu Llwybrau Treftadaeth, a £5,000 gan Barc Cenedlaethol Eryri i ariannu'r gwaith o hyrwyddo a dehongli enwau tirwedd lleol. Cytunwyd i dderbyn y cynigion, a gofynnwyd i Bwyllgor Datblygu'r cyngor i gyfarfod i symud y gwaith yn ei flaen.

v. Llinellau Melyn ger mynedfa Maes y Pandy, Tŷ'n Ddôl a Chae Gwalia: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod gyda swyddog priffyrdd Cyngor Gwynedd, ac fe gytunwyd i'r bwriad o osod y llinellau melyn ychwanegol er mwyn lliniaru rhywfaint ar y problemau traffig yn y pentre. Nodwyd mai'r cam nesaf yn y broses fydd

ymgynghoriad ffurfiol gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd yr angen hefyd i ail baentio rhai llinellau yn y pentref.

vi. Triathlon 2025: Derbyniwyd ymateb gan drefnwyr y triathlon yn nodi y bydd modd i bobl sydd wedi archebu cinio yn yr Eagles i deithio ar hyd ffordd Llangywer yn ystod y digwyddiad, ac fe gytunwyd fod angen hyrwyddo'r wybodaeth yma yn lleol.

vii. Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru: Rhannwyd gwybodaeth am y gwahanol sesiynau hyfforddiant i'r aelodau.

viii. Cyfarfod Un Llais Cymru: cafwyd adroddiad gan y Cyng Lis Puw o gyfarfod diweddar ym Mhenrhyndeudraeth, pryd y trafodwyd y llwyth gwaith afresymol sydd ar glercod yn ystod archwiliad blynyddol cynghorau. Nodwyd y bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach gan Bwyllgor Gwaith Un Llais Cymru. Gofynnwyd i'r clerc gylchredeg gwybodaeth mewngofnodi i wefan Un llais Cymru.

**3226 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y nodwyd:

- Fod y gwaith ar riw Tŷ'n Fedw wedi ei gwblhau.
- Fod y gwaith o gynnal ffosydd yn y cymoedd wedi ei gwblhau.
- Fod y cyngor wedi asesu tyfiant ger Dwrnudon a ger Eithin Fynydd.
- Fod cais wedi ei wneud am fwy o arwyddion clirffordd ger y Felindre.
- Fod Alan wedi atgoffa swyddogion o'r angen i greu bwlch i gerddwyr ar Bont Lliw, i greu llwybr diogel i'r ysgol ac i glirio graean o'r Afon Lliw.
- Fod angen rhoi sylw i'r bont droed ger Deildre.
- Diolchwyd i Alan am ddatrys problem y biniau ar waelod ffordd Bryn Caled.

**3227 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Bydd angen i'r pwyllgor roi sylw i'r prosiect Enwau Lleoedd a'r Llwybrau Treftadaeth.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod angen galw cyfarfod o'r is bwyllgor i ystyried gwaith cynnal y fynwent, gwaith ar cyrbiau cerrig beddi, a bod angen arweiniad ar y mater yma.
3. Bioamrywiaeth: Adroddwyd y bydd angen i'r pwyllgor ystyried y gwaith yn ardal y Fynwent Newydd.
4. Nadolig: Adroddwyd fod trefniadau mewn llaw ar gyfer y Nadolig (Coeden Nadolig ac ymweliad Sion Corn).
5. Asedau: Adroddwyd fod bocs arian a chamera newydd wedi eu gosod yn y toiledau cyhoeddus, a dywedodd y Cyng Arwel Ll Jones y byddai'n gwneud arolwg pellach o gyflwr asedau'r cyngor. Nodwyd fod angen sylw i'r lloches bws ger Pont Llan.
6. Cyllid: Cytunwyd i baratoi adroddiad ariannol manwl o fisoedd cyntaf 2025/2026 erbyn mis Medi.

**3228 Materion Ariannol:** Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cygnor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Cytundeb glanhau y toiledau.

- Anfoneb CCF am nwyddau glanhau'r toiledau.
- Anfonebau Sion Jones am dorri gwair y Fynwent Newydd a'r Gilfach Goffa.
- Anfoneb Cyngor Gwynedd am archwiliad mewnol y cyngor.
- Anfoneb Cwmni Pum Plwy Penllyn am hysbyseb yn y Cyfnod.
- Anfoneb am y bocs arian a'r camera i'r toiledau.
- Costau teithio'r Cyng Lis Puw i gyfarfod Un Llais Cymru.
- Ffi flynyddol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Gorffennaf yn £77.09 ac yn £147.49 am fis Awst.
Derbyniwyd eglurhad am adroddiad Archwiliad Mewnol y cyngor gan Gyngor Gwynedd, a nodwyd eu sylwadau ar greu cyllideb gytbwys.
Cytunwyd i roi taflenni Lwfans Aelodau'r cyngor ar wefan y cyngor.
Derbyniwyd gwybodaeth am raddfeydd cyflog staff y cyngor.
Nodwyd derbyn ad daliad TAW y cyngor am 2024/2025.
Nodwyd derbyn 50% o braesept blynyddol y cyngor o £8,400.

3229 **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod gwelliannau mewnol pellach wedi eu gwneud i'r Eagles, gyda threfniadau ar gyfer rhaglen o welliannau pellach. Nodwyd y bydd cyfarfod blynyddol y fenter yn cael ei gynnal unwaith y bydd y cyfrifon wedi eu cwblhau.

3230 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod cais i ariannu gwaith Gwedd 2 Canolfan Bro Tegid wedi ei gymeradwyo, a bod syniadau yn parhau i ddatblygu am Drafnidiaeth Gymunedol ac Ynni Cymunedol.

3231 **Materion cynllunio:** Derbyniwyd cais cynllunio i osod ffliw bwyler a newid cladin yn 2 Afon Fechan, a chais i adeiladu sied amaethyddol yn y Bryn. Cytunwyd i gefnogi'r ddau gais.

3232 **Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru.
ii. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Weithdy Arwyddo'r Bala ar Fedi 10fed.
iii. Urdd Gobaith Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i Ddathliad 75 mlynedd Gwersyll Glan-llyn ar Fedi 27ain, a gofynnwyd i'r Clerc fynychu'r dathliad.
iv. Clwb Hoci'r Bala: Derbyniwyd gwahoddiad i agoriad swyddogol cae astro'r Bala ar Fedi 10fed, ac fe gytunwyd i holi'r Cyng Llinos Edwards os y gall hi fynychu'r cyfarfod.

3233 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Tynnwyd sylw at y canlynol:

- Fod angen sylw i'r arwyddion 40 ger Capel Ainon.
- Fod angen sylw i oleuadau y Gilfach Goffa.
- Fod angen hel gwair ar ôl ei dorri yng nghae chwarae Maes y Pandy.
- Fod angen ail osod polion diogelwch ger Beudy'r Berth ar ffordd Cynllwyd.
  Gofynwyd i'r Cyng Alan Evans i roi sylw i'r materion yma.

Adroddwyd fod problem gynyddol o campervans yn aros dros nos mewn safleoedd amhriodol, ac fe gytunodd y Cyng Rhodri Jones i gysylltu â swyddogion y Parc Cenedlaethol.
Tynnwyd sylw at ymddygiad annerbyniol gan grŵp a fynychodd Wersyll Glan-llyn dros yr haf (tresbasu a gadael giatiau yn agored etc), a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r gwersyll.
Tynnwyd sylw hefyd am gais a wnaed i osod plac yn gyhoeddus i goffau pobl a gyfrannodd yn helaeth i fywyd cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Awgrymwyd trafodaeth bellach gyda Phwyllgor Rheoli'r Neuadd Bentre.

**3234 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 7/10/25 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.